# Celf ac ailgylchu

Mae pennaeth ysgol gynradd yn ysgrifennu llythyr at y rhieni. Cyn anfon y llythyr, mae angen ei gywiro, gan fod ynddo wallau iaith a bylchau.

Ysgol Gynradd y Fro, Llanaber, LL34 8TT
Penaeth: Mari Jones, M.A

28 Mawrth

Annwyl Rieni

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r pasg ar 6 Ebrill a bydd yn agor unwaith eto ar Ebrill 14.

Y tymor nesaf, bydd pob dosbarth yn dilyn thema Ailgylchu. Byddwn yn gwahodd siaradwyr i'r ygsol i siarad â'r plant, byddwn yn trefnu ymweliadau â chanolfan ailgylchu, byddwn yn defnyddio'r syniad o ailgylchu ar gyfer gwaith creadigol - gwaith ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg, cerddoriaeth, addysg gorfforol a gwaith celf a dylunio a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae Mrs Smith yn awyddus i gasglu cymaint o ddefnyddiau â phosib er mwyn creu murlun mawr yn y neuadd ac mae wedi gofyn i fi ofyn i chi a fyddech chi'n fodlon casglu'r canlynol a'u hanfon i mewn i'r ysgol ar ddechrau'r tymor nesaf gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda:

- hen focsys o bob math
- papurau
- poteli plastig
- hen ddillad (glan os gwelwch yn dda)
- botymau sbâr.

Bydd pob dosbarth yn gyfrifol am wneud rhan o'r murlun a bydd pob plentyn yn cymryd rhan.

Bydda i'n sicr y bydd y gwaith yn wych ar ôl ei orffen. Bydd eich plentyn yn gallu teimlo'n falch ei fod wedi helpu gyda'r gwaith a'i fod wedi cyfrannu defnyddiau.

Llawer o ddiolch i chi ymlaen llaw am unrhyw help

Yn gywir

Mari Jones

M. Jones